| POLISI DERBYNIADAU | | | |
|---|---|---|---|
| **Adran** | Cyfathrebu, Marchnata, Recriwtio a Derbyniadau | | |
| **Awdur** | Derbyniadau/Cydymffurfiaeth | | |
| **Awdurdodwyd gan:** | Bwrdd Academaidd | | |
| **Gweithredwyd Gan:** | Derbyniadau | | |
| **Polisi/Strategaeth/Gweithdrefn wedi'i Disodli:** | Polisi Derbyniadau | | |
| **Fersiwn Rhif:** | 2 | **Pwyllgor Cymeradwyo:** | Bwrdd Academaidd |
| **Dyddiad cymeradwyo:** | Ebrill 2022 | **Rhif cofnod:** | |
| **Statws:** | Cymeradwywyd | **Dyddiad Gweithredu:** | Ebrill 2022 |
| **Cyfnod cymeradwyo:** | 3 Blynedd | **Dyddiad Adolygu:** | Gorffennaf 2025 |
| Rwyf wedi cynnal prawf sgrinio asesiad effaith ar gydraddoldeb i helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. | | | Do |
| Rwyf wedi ystyried effaith y Polisi/Strategaeth/Gweithdrefn (dilëir fel sy’n briodol) ar y Gymraeg a darpariaeth y Gymraeg yn y Brifysgol. | | | Do |

Prifysgol **Wrecsam**
**Wrexham** University

**POLISI DERBYNIADAU PRIFYSGOL WRECSAM – Ar gyfer Ymgeiswyr, Cynghorwyr a staff Prifysgol Wrecsam.**

## 1. PWRPAS Y POLISI

Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer derbyn pob myfyriwr (Cartref a Rhyngwladol) i Brifysgol Wrecsam ac mae'n cynnwys yr holl ymgeiswyr israddedig, ôl-raddedig a phroffesiynol, llawn amser a rhan amser, a ddylai fynd ymlaen i astudio ar gyfer dyfarniad gan y Brifysgol a/neu gael dyfarniad ganddi.

At ddibenion derbyniad i Brifysgol Wrecsam, yn ogystal ag asesu gallu academaidd yr ymgeisydd a'i botensial i astudio a chyflawni'r dyfarniad bwriadedig, rhaid i'r Brifysgol hefyd asesu'r canlynol:

- cymhwysedd yr ymgeisydd i fyw ac astudio yn y DU drwy gydol y cwrs
- statws ffioedd yr ymgeisydd, gan gynnwys ei gymhwysedd am Gyllid Myfyrwyr, bwrsariaethau, grantiau a chyllid arall
- gallu Iaith Saesneg yr ymgeisydd

Bydd 'cartref' yn cael ei ddefnyddio i ddynodi ymgeisydd sydd 1) o genedligrwydd y DU, neu 2) sydd â chaniatâd amhenodol i aros yn y DU heb unrhyw amodau ynghlwm â'r caniatâd hwn.

Bydd y term 'Rhyngwladol' yn dynodi unrhyw ymgeisydd nad yw'n perthyn i'r categori Cartref. Gweler 'Atodiad A' am ragor o arweiniad.

Mae'r polisi'n cynnwys ymgeiswyr i PGW (Prifysgol Wrecsam Wrecsam) a'r rhai sy'n gwneud cais i un o bartneriaid cydweithredol y Brifysgol. Mae hefyd yn cynnwys y rhai sy'n astudio ar gyfer cymhwyster Prifysgol Wrecsam fel rhan o gwrs dysgu'n seiliedig ar waith, a'r rhai sy'n gwneud cais i'r brifysgol drwy lwybrau 'traddodiadol' ac 'anhraddodiadol'.

## 2. AMLINELLIAD O'R POLISI

2.1 Mae Prifysgol Wrecsam yn cydnabod bod ei llwyddiant yn dibynnu ar ei gallu i apelio at ystod eang o ddarpar fyfyrwyr, ac i roi cyfle cyfartal i'r darpar fyfyrwyr hyn astudio gyda ni. Mae'r brifysgol hefyd yn cydnabod y bydd darpar fyfyrwyr yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd addysgol, ac na fyddant o reidrwydd yn meddu ar gymwysterau 'traddodiadol'. Cefnogir y gydnabyddiaeth hon gan Bolisi Derbyniadau Cyd-destunol ar wahân i'r Polisi Derbyniadau hwn (https://wrexham.ac.uk/cy/astudio/gwneud-cais/derbyniadau-cyd-destunol/). Bydd y Polisi Derbyniadau Cyd-destunol hwn yn nodi'n glir sut y bydd y Brifysgol yn cefnogi ymgeiswyr y dylid rhoi cymorth a hyblygrwydd ychwanegol iddynt oherwydd eu hamgylchiadau personol presennol neu flaenorol.

*Yn ogystal â hyn,*

2.2 Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i ddarparu addysg uwch a hyfforddiant cynhwysol o ansawdd dda i bawb a all elwa ohono, er mwyn gwasanaethu anghenion myfyrwyr, cyflogwyr a'r gymuned ehangach. Rydym felly wedi ymrwymo i sicrhau bod ein gweithdrefnau a'n harferion ar gyfer recriwtio a derbyn myfyrwyr i bob un o'n rhaglenni o'r safon uchaf, a'n bod yn gallu darparu lefelau mynediad agored, teg a chyson i bob darpar fyfyriwr.

2.3 Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Brifysgol wedi llofnodi Cod Ymarfer Derbyniadau Teg yr UUK/Guild HE 2022 ac yn addo cydymffurfio'n llawn â holl egwyddorion y cod hwn.

*Wrth ystyried mynediad i'n rhaglenni*;

2.4 Bydd Prifysgol Wrecsam yn ceisio darparu mynediad i addysg uwch i'r ystod ehangaf o gyfranogwyr ym mholisi'r Brifysgol o ehangu mynediad a chyfranogiad a chyfle cyfartal.

*Mae hyn yn golygu;*

2.5 Bydd pob Ymgeisydd yn cael ei ystyried ar sail ei rinweddau, ei allu a'i botensial i lwyddo yn ei ddewis gwrs. Gwneir hyn o fewn y fframwaith a osodwyd gan bolisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol (gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag addasrwydd ar gyfer ymarfer (yn ymwneud â rhaglenni proffesiynol) ac ymgeiswyr sy'n datgan euogfarn droseddol) a chyrff allanol perthnasol gan gynnwys canllawiau Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI) a gofynion deddfwriaethol.

*Yn unol â Deddf Cydraddoldeb, 2010*;

2.6 Bydd pob ymgeisydd yn cael ei ystyried yn unigol, waeth beth fo cefndir yr ymgeisydd. Mae Prifysgol Wrecsam yn gwrthwynebu pob math o wahaniaethu anghyfreithlon neu annheg a bydd pob ymgeisydd yn cael ei ystyried yn unigol, beth bynnag fo'i gefndir neu nodwedd warchodedig gan gynnwys oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred (gan gynnwys diffyg cred), rhyw a chyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw sail amhriodol arall.

2.7 Mae 'Nodweddion Gwarchodedig' y Ddeddf Cydraddoldeb i gyd yn cael eu cydnabod o ran triniaeth gyfartal yn y polisi hwn. Nid yw 'Nodweddion Gwarchodedig' yn cael eu hystyried yn negyddol mewn penderfyniadau o ran derbyniadau ac ni fyddant yn rhwystr i unrhyw ymgeisydd o ran eu derbyniad i Brifysgol Wrecsam. Rydym yn croesawu datgeliad cynnar o unrhyw anghenion ychwanegol er mwyn gallu rhoi addasiadau rhesymol ar waith cyn gynted â phosibl.

*Yng nghyswllt cymwysterau Cymru;*

2.8 Yn benodol, mae Prifysgol Wrecsam yn cefnogi ac yn cydnabod Cymwysterau cenedlaethol Cymru, gan gynnwys Bagloriaeth Cymru, fel sail ar gyfer ystyriaeth mynediad.

*O ran cymwysterau rhyngwladol*

2.9 Mae'r Brifysgol yn derbyn ystod eang o gymwysterau a gynigir gan ymgeiswyr Cartref, yr UE ac ymgeiswyr Rhyngwladol ar gyfer rhaglenni israddedig, ôl-raddedig a rhaglenni proffesiynol. Mae'r Brifysgol yn cael ei harwain gan UCAS a'r Rhwydwaith Ewropeaidd o Ganolfannau Gwybodaeth (UK ENIC) o ran y cywerthedd a roddir i gymwysterau rhyngwladol (gweler www.enic.org.uk). Dim ond cymwysterau a restrir ac a ddilysir ar UK ENIC fydd yn cael eu derbyn fel rhai sy'n bodloni gofynion mynediad Prifysgol Wrecsam ar gyfer ymgeiswyr rhyngwladol, ac eithrio lle mae cytundeb Dilyniant, Sefyllfa Uwch neu Bwyntiau Cymal ffurfiol wedi'i gymeradwyo gan y Brifysgol.

*Ac wrth ystyried gofynion iaith Saesneg;*

2.10 Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd i'r Brifysgol nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt brofi lefel eu hyfedredd Saesneg.

2.11 Rhaid i ymgeiswyr fodloni gofynion Iaith Saesneg y Brifysgol fel y nodir ym Mholisi Derbyniadau Iaith cyfredol Prifysgol Wrecsam ac yn unol â'u statws mewnfudo unigol (er enghraifft ymgeisydd Cenedlaethol y DU, Cenedlaethol yr UE, Rhyngwladol sy'n destun rheolaeth fewnfudo o dan y System Mewnfudo'n Seiliedig ar Bwyntiau – gweler Atodiad A – 'Arweiniad ar Asesu Meini Prawf Ymgeiswyr' am ragor o fanylion

*Yn ogystal, ac i annog ceisiadau gan bawb sydd â'r potensial i lwyddo;*

2.12 Mae Prifysgol Wrecsam yn cydnabod y gall fod gan ymgeiswyr anghenion cymorth ychwanegol oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu a domestig a bydd yn ceisio gwneud addasiadau rhesymol i gynorthwyo ymgeiswyr yn yr achosion hyn.

2.13 Cynigir cyfathrebu ag ymgeiswyr yn Gymraeg neu Saesneg drwy gydol y broses yn dibynnu ar y dewis a fynegwyd gan yr ymgeisydd yn ystod y broses ymgeisio.

## 3. DEUNYDDIAU RECRIWTIO A HYRWYDDO

3.1 Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i wneud deunyddiau recriwtio a hyrwyddo yn gwbl hygyrch, i alluogi ymgeiswyr i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch eu dewis o Sefydliad a rhaglen astudio.

3.2 Rhaid i bob deunydd adlewyrchu'r angen am gywirdeb, perthnasedd a thegwch er mwyn darparu gwybodaeth amserol a defnyddiol.

3.3 Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am newidiadau yn y wybodaeth cyn gynted â phosibl.

**4. DETHOL**

4.1 Bydd meini prawf dethol yn deg, yn gyson, yn dryloyw ac yn cael eu cyhoeddi.

4.2 Bydd meini prawf dethol yn ystyried cymwysterau a chyflawniad academaidd ac anacademaidd.

4.3 Bydd dethol yn cael ei wneud gan ystyried gofynion mynediad tryloyw, academaidd ac anacademaidd.

4.4 Dylai'r dethol gael ei wneud gan staff awdurdodedig (a gadarnheir gan Ddeoniaid Cyfadran neu Ddeoniaid Cyswllt), sy'n rhan o dîm cwrs y rhaglen y gwneir cais amdani, neu gan y Tîm Derbyniadau Canolog/y Swyddfa Ryngwladol yn unol â meini prawf y cytunwyd arnynt gan Ddeoniaid y Cyfadrannau neu'r Deoniaid Cyswllt).

4.5 Rhoddir ystyriaeth i alluoedd, cymwysterau a phrofiadau ymgeiswyr sy'n dynodi eu potensial i fod yn llwyddiannus ar y rhaglen y maent wedi gwneud cais amdani.

4.6 Gall y broses ddethol gynnwys adolygiad o Gofnod Cyrhaeddiad ymgeisydd os yw ar gael a lle y bo'n briodol.

4.7 Gall y dethol, lle y bo'n briodol, gynnwys meini prawf a osodir yn allanol (Cofrestriad llwyddiannus Gofal Cymdeithasol Cymru neu ofyniad corff proffesiynol i feddu ar TGAU Mathemateg gradd A-C er enghraifft).

4.8 Lle bo angen gwiriad DBS fel rhan o ofynion mynediad cwrs, bydd hyn yn rhan o unrhyw gynnig amodol a wneir i'r ymgeisydd a dylid ei gwblhau'n foddhaol cyn i'r ymgeisydd gael ei wneud yn ddiamod. Pan fo ymgeisydd ar gyfer cwrs sydd angen gwiriad DBS yn datgan euogfarn droseddol, dylid delio â hyn yn unol â'r Polisi a'r Weithdrefn ar gyfer Derbyniad i Raglenni sy'n gofyn am DBS ac Ymgeiswyr ag Euogfarnau Troseddol.

4.9 Pan fo ymgeisydd yn gwneud cais i gael ei aildderbyn i'r brifysgol ar ôl tynnu'n ôl, a lle byddai astudiaeth barhaus ar y rhaglen flaenorol wedi arwain at weithdrefn ddisgyblu neu weithdrefn addasrwydd i ymarfer, ni wneir unrhyw gynnig nes bod y cais wedi'i ystyried gan Banel Asesu Derbyniadau Prifysgol Wrecsam.

4.10 Lle y bo'n briodol, bydd pob ymgeisydd Cartref yn cael cynnig cyfweliad os na fydd penderfyniad ynghylch derbyniad yn bosibl o'u cais cychwynnol (er enghraifft, os nad oes ganddynt neu os nad ydynt yn disgwyl ennill y pwyntiau tariff UCAS a nodir yng ngofynion mynediad cyhoeddedig y cwrs hwnnw). Nid yw hyn yn berthnasol i'r cyrsiau hynny lle mae cyfweliad yn orfodol. Gellir cynnal cyfweliadau ar-lein i bob ymgeisydd, pe bai hyn yn ffafriol.

4.11 Bydd yr holl ddeilliannau dethol yn cael eu cofnodi a'u cyfleu i'r ymgeisydd mewn modd defnyddiol ac amserol. Cynigir cyfathrebu dwyieithog (Cymraeg a Saesneg).

4.12 Pan fydd cais i astudio gyda ni ar gwrs penodol yn aflwyddiannus, bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ddewisiadau eraill posibl neu'n cael arweiniad ar sut i gyflawni gofynion mynediad yn y dyfodol.

4.13 Ym mhob achos lle mae cais i astudio gyda ni yn aflwyddiannus, dylid cadw cofnodion i alluogi adborth a rhagor o gyngor ar gais yr ymgeisydd. Bydd adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael ei ddarparu yn unol â pholisi Prifysgol Wrecsam ar gyfer adborth i ymgeiswyr, sydd ar gael ar-lein drwy wefan Prifysgol Wrecsam.

4.14 Rhoddir gwybod i ymgeiswyr am y gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd angen ystyried meini prawf ychwanegol, er enghraifft y rhai sy'n ymwneud â chael fisa, cofnodion iechyd a chofnodion troseddol.

4.15 Bydd ceisiadau gan ymgeiswyr y mae eu caniatâd i aros yn y DU yn dod i ben cyn diwedd eu dewis o gwrs yn cael eu hystyried yn unigol. Os caniateir iddynt gofrestru, bydd ymgeiswyr yn cael gwybod nad yw'r Brifysgol dan unrhyw rwymedigaeth i ddarparu nawdd dan y llwybr Fisa 'Myfyriwr' ar ddiwedd eu habsenoldeb presennol ac nid yw'n atebol am yr ymgeisydd yn methu â chwblhau ei gwrs gyda ni dan yr amgylchiadau hyn.

4.16 Ni wneir cynnig i astudio, ac ni chyhoeddir CAS, i unrhyw ymgeisydd newydd y mae ei fisa wedi dod i ben ac yr ystyrir ei fod yn 'aros yn hirach na'r cyfnod fisa' yn y DU.

4.17 Rhaid i geisiadau i bob rhaglen ddangos dilyniant academaidd boddhaol i'r cwrs y gwneir cais amdano. Bydd ystyriaethau ynghylch y dilyniant hwn yn cymryd i ystyriaeth ffactorau amrywiol gan gynnwys lefel astudio flaenorol ac unrhyw sefydliadau addysgol blaenorol a fynychwyd.

4.18 Mae cyhoeddi CAS i ymgeiswyr rhyngwladol yn broses ar wahân i gyhoeddi cynnig amodol neu ddiamod. Swyddog Awdurdodi UKVI Prifysgol Wrecsam sy'n penderfynu'n derfynol a ddylid rhoi CAS i ymgeisydd rhyngwladol, y mae ei benderfyniad ar faterion o'r fath yn derfynol.

4.19 Bydd yr holl weithdrefnau a chanlyniadau'n cael eu cofnodi a'u cadw fel rhan o ffeil y myfyriwr am gyfnod y rhaglen.

## 5 GWYBODAETH I YMGEISWYR

5.1 Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am benderfyniadau dethol yn ysgrifenedig. Bydd ymgeiswyr UCAS yn cael eu cynnig swyddogol drwy UCAS, a llythyr cynnig ychwanegol yn uniongyrchol gan Brifysgol Wrecsam. Bydd ymgeiswyr uniongyrchol yn cael llythyr cynnig gan y brifysgol. Cyhoeddir y gweithdrefnau ar gyfer derbyn, gohirio neu wrthod y cynnig yn y Polisi Derbyn hwn.

5.2 Mae Telerau ac Amodau cynnig ymgeisydd Cartref ar gael ar wefan y brifysgol, a darperir copi o'r telerau hyn gyda'r llythyr cynnig a anfonwyd at yr ymgeisydd gan y brifysgol. Bydd telerau ac amodau cynnig ymgeisydd Rhyngwladol ynghlwm â'u llythyr cynnig

5.3 Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu, drwy raglen reoledig o gyfathrebu i safonau gwasanaeth cytunedig, am unrhyw newidiadau sylweddol sy'n berthnasol i'w rhaglen a'r gefnogaeth y dylent ddisgwyl ei chael gan y brifysgol yn ystod eu rhaglen.

5.4 Fel rhan o raglen gyfathrebu a reolir, bydd manylion y trefniadau ar gyfer cyrraedd, ymrestru, ac ymsefydlu yn cael eu darparu cyn i'r ymgeiswyr llwyddiannus gyrraedd, fel rhan o becyn croeso.

5.5 Anogir ymgeiswyr i ddatgan anghenion cymorth ychwanegol cyn gynted â phosibl yn y broses dderbyn i sicrhau y gellir gwneud addasiadau rhesymol cyn cofrestru pryd bynnag y bo modd.

## 6 CYFRIFOLDEB YMGEISYDD

6.1 Disgwylir i bob Ymgeisydd (llawn amser, rhan amser, cydweithredol, yn seiliedig ar waith neu bob ymgeisydd arall) gydymffurfio â'r holl weithdrefnau sy'n ymwneud â'r broses Dderbyn.

6.2 Rhaid i bob ymgeisydd ddarllen a derbyn Telerau ac Amodau ei gynnig, fel y nodir ar wefan y brifysgol ac sydd ynghlwm â'i lythyr cynnig.

6.3 Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am dderbyn, gohirio neu wrthod eu cynnig gan Brifysgol Wrecsam a rhaid iddynt wneud hynny o fewn yr amserlenni a bennir gan UCAS a chan y Brifysgol (ar gyfer ceisiadau uniongyrchol yn unig). Os bydd ymgeisydd yn methu terfyn amser sy'n arwain at wrthod lle yn awtomatig, dylai gysylltu â'r Swyddfa Derbyniadau Ganolog yn uniongyrchol i ofyn am wrthdroi'r penderfyniad gwrthod hwn.

6.4 Wrth dderbyn cynnig amodol neu ddiamod, mae gan bob ymgeisydd yr hawl i newid ei feddwl am y penderfyniad hwn cyn pen 14 diwrnod. Dylai ymgeiswyr UCAS gysylltu ag UCAS yn uniongyrchol i ddechrau os byddant yn newid eu meddwl am dderbyniad o fewn y cyfnod hwn o 14 diwrnod. Dylai ymgeiswyr uniongyrchol gysylltu â'r Brifysgol yn uniongyrchol. Dylai pob ymgeisydd sy'n newid ei feddwl fwy na 14 diwrnod o'i dderbyniad cadarn neu yswiriant gysylltu'n uniongyrchol â Phrifysgol Wrecsam am ragor o wybodaeth.

6.5 Bydd cofrestriad yr ymgeisydd yn dibynnu ar dderbyn tystiolaeth o gymwysterau neu dystysgrifau gwreiddiol fel y'u nodir ar ei ffurflen gais wreiddiol.

6.6 Bydd ymgeiswyr yn gyfrifol am ddarparu'r ffurfiau tystiolaeth awdurdodedig a chywir mewn perthynas ag amodau mynediad anacademaidd, gan gynnwys dogfennaeth fewnfudo sydd ei hangen cyn cyhoeddi CAS.

6.7 Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cyflawni'r holl amodau a osodwyd ar ei gofrestriad yn y brifysgol, er enghraifft cwblhau gwiriad DBS. Os bydd myfyriwr yn methu â chyflawni unrhyw amodau a osodwyd, mae'r brifysgol yn cadw'r hawl i'w atal neu ei dynnu'n ôl o'i raglen astudio.

6.8 Cyn cyflwyno CAS i ymgeisydd rhyngwladol, efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr gael cyfweliad hygrededd boddhaol gyda'r Tîm Cydymffurfiaeth Mewnfudo.

6.9 Anogir ymgeiswyr i ddatgan yn llawn yr holl ofynion hysbys neu anghenion cymorth ar adeg y cais fel y gellir gwneud addasiadau rhesymol cyn ymrestru pryd bynnag y bo modd.

## 7. MONITRO AC ADOLYGU

7.1 Bydd polisïau a gweithdrefnau yn adlewyrchu gofynion newidiol Prifysgol Wrecsam a darpar fyfyrwyr.

7.2 Ymgymerir â monitro ac adolygu polisi, prosesau a gweithdrefnau derbyn drwy gydol pob cylch fel rhan o rôl y Swyddfa Derbyn ac fel rhan o raglen archwiliadau'r Brifysgol.

7.3 Bydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn cael eu monitro a'u hadolygu yn unol â chanllawiau'r Brifysgol, ac mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb, 2010.

## 8. GOFYNION MYNEDIAD A THROSGLWYDDO CREDYDAU

8.1 Gall Ymgeisydd gael ei dderbyn i raglen sy'n arwain at ddyfarniad penodol os, yn y broses ddethol, mae disgwyliad rhesymol y bydd yr ymgeisydd yn gallu cyrraedd y safon academaidd, a'r safon broffesiynol lle y bo'n berthnasol, sy'n briodol ar gyfer y dyfarniad y ceisir amdano.

8.2 Nodir gofynion mynediad penodol ar gyfer rhaglenni astudio ym manylebau'r cyrsiau unigol. Fodd bynnag, nid yw'r gofynion mynediad hyn yn warant o gynnig – bydd pob ymgeisydd yn cael ei ystyried yn unigol, a gellir gwneud cynigion uwchlaw neu islaw'r tariff cyhoeddedig. Gellir caniatáu mynediad neu statws uwch i ymgeisydd yn seiliedig ar ddysgu gyda thystysgrif neu ddysgu blaenorol drwy brofiad. Mae gan y Brifysgol weithdrefnau ffurfiol RPL (Cydnabod Dysgu Blaenorol) a RP(E)L (Cydnabod Dysgu Blaenorol drwy Brofiad) ar gyfer asesu ceisiadau am fynediad yn seiliedig ar ddysgu drwy brofiad a/neu ddysgu gyda thystysgrif y mae angen cadw atynt cyn i gynigion diamod gael eu cyflwyno. Mae'r gweithdrefnau hyn ar gael ar-lein ar Fewnrwyd y Myfyrwyr o dan Gweinyddiaeth Myfyrwyr

## 9. ASIANTAU

9.1 Dim ond asiantau rhyngwladol cymeradwy Prifysgol Wrecsam sydd â chontract cyfredol all gyfeirio ymgeiswyr i'r Brifysgol.

## 10. CWYNION

10.1 Mae Prifysgol Wrecsam yn darparu gweithdrefn hygyrch ar gyfer cwynion ynghylch y broses dderbyn. Mae'r polisi hwn ar gael ar-lein yn https://wrexham.ac.uk/cy/astudio/gwneud-cais/polisiau-mynediad/

**MEWNOL - staff Prifysgol Wrecsam**

## 11. CYFRIFOLDEBAU A DATBLYGIAD STAFF

11.1 Cedwir rhestr o'r staff sy'n ymgymryd â rôl ddethol (Tiwtoriaid Derbyn) gan y Swyddfa Derbyniadau Ganolog/y Swyddfa Ryngwladol.

11.2 Bydd pob Tiwtor Derbyn yn cael cyfathrebiad, diweddariadau a hyfforddiant rheolaidd ac wedi eu hamserlennu, yn ôl yr angen gan y tîm Derbyniadau Canolog. Anogir y Tiwtoriaid Derbyn i rannu gwybodaeth, gwybodaeth wedi'i diweddaru ac arfer dda.

11.3 Pan fo angen i aelod o staff sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch derbyniadau wneud penderfyniad ar ffurflen gais gan berthynas neu rywun y mae ganddo berthynas bersonol agos ag ef, dylid tynnu sylw'r Rheolwr Derbyniadau at y berthynas hon a dylai aelod arall o staff sydd wedi'i hyfforddi'n briodol wneud y penderfyniad ynghylch derbyniad ar y cais hwnnw.

## 12. CYFYNGIADAU AR YMRESTRU STAFF Y BRIFYSGOL

12.1 Fel arfer ni fydd aelodau o staff y Brifysgol, neu sefydliadau partner sy'n gwneud cyfraniad neu'n asesu'r dyfarniad, yn cael eu derbyn i'r modiwl neu'r dyfarniad hwnnw.

12.2 Ni fydd aelodau o staff y Brifysgol, neu sefydliadau partner, fel arfer yn ymrestru fel myfyriwr ar fodiwl neu ddyfarniad a ystyrir gan fwrdd asesu y maent yn aelod ohono.

12.3 Gall aelodau staff ofyn i Gadeirydd y Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu (LTQC) am eithrio’r darpariaethau uchod. Mewn achosion o'r fath bydd yr aelod o staff yn darparu gwybodaeth fanwl i ddangos sut y bydd gonestrwydd ac annibyniaeth y broses asesu yn cael eu cynnal ar bob pwynt. Gall Cadeirydd y Pwyllgor Ansawdd Dysgu ac Addysgu ofyn am gyngor gan Gadeiryddion byrddau dyfarnu, arholwyr allanol a/neu eraill yn ôl yr angen.